COFNOD O BENDERFYNIAD CYFARFOD O'R PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CORFFORAETHOL A GYNHALIWYD YN HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR – Y SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB AR DYDD MAWRTH, 27 IONAWR 2026 10:00

Presennol

Y Cynghorydd A Ulberini-Williams – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| F D Bletsoe | JPD Blundell | N Clarke | HJ David |
| H Griffiths | AJ Williams | MJ Williams | |

Presennol – O Bell

| | | | |
|---|---|---|---|
| S J Griffiths | J Llewellyn-Hopkins | RL Penhale-Thomas | T Thomas |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

M L Hughes
Y Cynghorydd John Spanswick – Ar Arweinydd
Kelly Watson - Prif Swyddog, Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, AD a Pholisi Corfforaethol

Gwahoddwyr:

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd Jane Gebbie | Dirprwy Arweinydd / Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Llesiant |
| Y Cynghorydd Hywel Williams | Aelod Cabinet dros Gyllid a Pherfformiad |
| Y Cynghorydd Martyn Jones | Aelod Cabinet dros Wasanaethau Addysg ac Iechyd |
| Y Cynghorydd Eugene Caparros | Aelod Cabinet dros Newid yn yr Hinsawdd a'r Amgylchedd (Rhannu Swydd) |
| Y Cynghorydd Gary Haines | Aelod Cabinet dros Newid yn yr Hinsawdd a'r Amgylchedd (Rhannu Swydd) |
| Y Cynghorydd Neelo Farr | Aelod Cabinet dros Adfywiad, Datblygiad Economaidd a Thai |
| Y Cynghorydd Melanie Evans | Aelod Cabinet dros Adnoddau |
| | |
| Jake Morgan | Prif Weithredwr |
| Carys Lord | Pennaeth Cyllid, Tai a Newid |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc |
| Claire Marchant | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Janine Nightingale | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau |

| | |
|---|---|
| Deborah Exton | Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr |
| Joanne Norman | Rheolwr Grwp Cynllunio Ariannol a Rheoli Cyllidebau |
| Nigel Smith | Rheolwr Grŵp – Prif Gyfrifydd |

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Meryl Lawrence | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Craffu |
| Jessica Mclellan | Swyddog Craffu |

Datganiadau o Ddiddordeb

Y Cynghorydd A Ulberini-Williams – Eitem 4 – Personol – Deiliad y Swydd Presennol – Cadeirydd, Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol ynghylch y Gweithgor Craffu ar y Gyllideb, ynghylch cyflogau dewisol, a'i gŵr yn gweithio fel athro dosbarth yn Ysgol Gyfun Pen-coed.
Y Cynghorydd AJ Williams – Eitem 5 – Personol – Llywodraethwr Cymunedol yn Ysgol Gynradd Coety.

## 181. Cymeradwyaeth Cofnodion

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol dyddiedig 11 Rhagfyr 2025 fel cofnod gwir a chywir. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 27 Ionawr 2026 |

## 182. Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2026-27 i 2029-30

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Ar ôl ystyried yr adroddiad a thrafodaeth fanwl gydag Aelodau'r Cabinet ac Uwch Swyddogion, fe wnaeth y Pwyllgor yr argymhellion a'r ceisiadau canlynol am wybodaeth ychwanegol a chytunodd i gyflwyno'r |

| | |
|---|---|
| | Argymhellion i'r Cabinet ar 3 Chwefror 2026:<br><br>**Argymhellion**<br><br>1. Treth y Cyngor<br>Mynegodd y Pwyllgor bryder ynghylch y cynnydd arfaethedig uwchlaw chwyddiant i Dreth y Cyngor a'r pwysau y mae llawer o drigolion yn eu hwynebu wrth gydbwyso cyllidebau eu cartrefi i gwrdd â chost Treth y Cyngor. Felly, **argymhellodd** y Pwyllgor yn gryf y dylai'r Cabinet ystyried adolygu ei setliad cyllidebol terfynol, gan gynnwys y cynigion presennol am ostyngiadau a defnyddio'r cyllid nas dyrannwyd o'r cynnydd i 4.6% i sicrhau'r Dreth y Cyngor isaf posibl.<br><br>2. Naratif ynghylch: Demograffeg<br>Gan gyfeirio at baragraff 3.1.3 o adroddiad y Cabinet, **argymhellodd** y Pwyllgor y dylid cynnwys naratif pellach ynghylch y newid demograffig yn y Fwrdeistref Sirol a bod yna ddadansoddiad mwy manwl o'r ystodau oedran, e.e. pobl ifanc, oedolion a phobl hŷn, ac ati, er mwyn deall yn well yr effaith yn y dyfodol ar niferoedd y disgyblion mewn ysgolion a darpariaeth gofal cymdeithasol ar gyfer cynllunio darpariaeth gwasanaethau.<br><br>3. Ariannu yn Llawn Ymrwymiadau Polisi Cenedlaethol<br>**Argymhellodd** y Pwyllgor y dylid ariannu'n llawn yr holl ymrwymiadau polisi newydd sy'n deillio o bwysau deddfwriaethol gan Lywodraeth y DU neu Lywodraeth Cymru (LIC) a bod y Pwyllgor yn cefnogi'r Cabinet yn llawn wrth lobïo San Steffan a LIC i ddarparu digon o gyllid.<br><br>4. Trawsnewid mewn Ysgolion ac Addysg<br>Trafododd y Pwyllgor yr angen am drawsnewidiad yn y Cyngor drwyddi draw, yn benodol y swyddogaeth yn ymwneud ag ysgolion ac addysg, i weld beth y gellir ei wneud yn well a'r effaith y mae'r fformiwla ariannu a gymhwysir i ddyraniadau cyllideb ysgolion yn ei chael ar yr amrywiadau rhwng balansau cyllidebau ysgolion ac **argymhellodd:**<br><br>a. bod gwaith yn cael ei wneud i roi gwell dealltwriaeth o'r rhesymau dros yr amrywiadau rhwng balansau cyllidebau ysgolion;<br>b. bod y fformiwla ariannu a gymhwysir i ddyraniadau cyllidebau ysgolion yn cael ei hadolygu; a bod yr uchod yn cael ei fwydo'n ôl i bennu cyllideb y flwyddyn nesaf ynghyd â diweddariad ynghylch pa drawsnewidiad sydd wedi digwydd mewn ysgolion ac addysg. |

| | |
|---|---|
| | 5. Atal Llifogydd a Thir y Cyhoedd<br>Trafododd y Pwyllgor ymateb y Cabinet i Argymhelliad 17 gan y Gweithgor Craffu ar y Gyllideb a nododd, 'bydd y Gyfarwyddiaeth yn edrych i flaenoriaethu gwariant ar fesurau atal llifogydd', ond tynnodd sylw at y ffaith ei bod yn hanfodol cyfeirio at gyllid ar gyfer atal llifogydd yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig ac **argymhellodd** y dylai'r Cabinet ystyried cynnwys mesurau atal llifogydd o fewn y naratif yn *NEW 4, Tir y Cyhoedd*, ym Mhwysau Cyllidebol Ychwanegol y Setliad Terfynol, £1.5m.<br><br>6. Dull y Cyngor o ran Atal Llifogydd a Gwasanaethau Peirianneg<br>Cyfeiriodd yr aelodau at y cysylltiad rhwng Argymhellion 17 (Atal Llifogydd) ac 18 (Gwasanaethau Peirianneg) y Gweithgor Craffu ar y Gyllideb a thynnu sylw at y cyfle i ddefnyddio atebion peirianneg a rhai sy'n seiliedig ar natur i atal llifogydd. **Argymhellodd** y Pwyllgor y dylid ystyried edrych ar atal llifogydd gyda ffocws peirianneg, e.e. plannu coed i greu gwlyptiroedd i arafu llif y dŵr i ffwrdd o dai i atal llifogydd, disodli ymylon ffyrdd gyda systemau draenio cynaliadwy, ac ati, a bod yn fwy beiddgar a rhagweithiol wrth ddenu a defnyddio grantiau a chyllid sydd ar gael.<br><br>**Ceisiadau am Wybodaeth Ychwanegol**<br><br>7. Treth y Cyngor – Ail Gartrefi<br>Trafododd y Pwyllgor Bolisi'r Cyngor ar gyfer taliadau Treth y Cyngor ar ail gartrefi a **gofynnodd am:**<br><br>a. y wybodaeth gymharol gan Awdurdodau Lleol eraill ynghylch eu lefel o ffioedd;<br>b. a ydynt wedi gostwng eu cyfraddau;<br>c. yr effaith ar nifer yr ail gartrefi yn ardal eu hawdurdod lleol; ac<br>d. yr effaith y mae'r cynnydd yng nghostau Pen-y-bont ar Ogwr wedi'i chael.<br><br>8. Cyfraddau Ynni ar gyfer Ysgolion<br>**Gofynnodd** y Pwyllgor am wybodaeth ynghylch cost rhagamcanol trydan, nwy a dŵr i ysgolion yn y flwyddyn ariannol nesaf a sut y rhagwelir y bydd hyn yn effeithio ar gyllidebau ysgolion.<br><br>9. Pwysau Cyllidebol – Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)<br>Cyfeiriodd y Pwyllgor at y cyhoeddiad gan Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr ynghylch cyllid pellach o £8.2m eleni ar gyfer ADY a **gofynnodd** am swm y cyllid hwnnw a ddyrannwyd ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr, pryd y disgwylid derbyn y cyllid, ac a ddisgwylid cyllid grant pellach yn ystod y |

| | |
|---|---|
| | flwyddyn y gellid ei wrthbwyso yn erbyn y Pwysau Cyllidebol cylchol.<br><br>10. <u>Gwella Ysgolion</u><br>Cyfeiriodd y Pwyllgor at EDNEW 2, Gwella Ysgolion, yn y Pwysau Cyllidebol sy'n Dod i'r Amlwg ar y Gyfarwyddiaeth o £225k a bod cyfraniad o £500k yn flaenorol tuag at Gonsortiwm Canolbarth y De a **gofynnodd**, pan fydd y cyllid ar gyfer dadgyfuno o'r gwasanaeth wedi'i gwblhau, am fanylion ynghylch a yw'r gwahaniaeth wedi arwain at arbed refeniw.<br><br>11. <u>Cynnal a Chadw Ysgolion</u><br>Cyfeiriodd y Pwyllgor at *SCHNEW 1, Cynnal a Chadw Adeiladau* a'r cyhoeddiad diweddar gan Lywodraeth Cymru ynghylch cyllid ychwanegol o £20 miliwn ar gyfer cynnal a chadw ysgolion a **gofynnodd** am swm y cyllid hwnnw a ddyrannwyd ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr, pryd y disgwylid derbyn y cyllid, a'r effaith ar y Pwysau Cyllidebol sy'n Dod i'r Amlwg ar y Gyfarwyddiaeth hwn.<br><br>12. <u>Darpariaeth Breswyl Fewnol – Gwasanaethau Plant</u><br>Cyfeiriodd y Pwyllgor at SSW 1 yn y Pwysau Cyllidebol sy'n Dod i'r Amlwg ar y Gyfarwyddiaeth a **gofynnodd** am ddadansoddiad o'r diffyg ar Gartrefi 1, 2 a thri mis o Gartref 3.<br><br>13. <u>Cronfa Chwaraeon y Gist Gymunedol</u><br>Cyfeiriodd y Pwyllgor at *NEW 3, Datblygu Chwaraeon*, ym Mhwysau Cyllidebol Ychwanegol y Setliad Terfynol a **gofynnodd** am ddadansoddiad o faint fydd ar gael ar gyfer cronfa chwaraeon y Gist Gymunedol ar gyfer cyllid cyfatebol ar gyfer Clybiau, grantiau a gwobrau Cymunedol.<br><br>14. <u>Trafnidiaeth – Cynlluniau Peilot Llwybrau Bysiau</u><br>Cyfeiriodd yr aelodau at COM 2 – Pwysau Cyllidebol sy'n Dod i'r Amlwg ar y Gyfarwyddiaeth a *NEW 6, Trafnidiaeth,* ym Mhwysau Cyllidebol Ychwanegol y Setliad Terfynol sydd ill dau'n ymwneud â'r cynlluniau peilot ar gyfer llwybrau bysiau newydd a **gofynnodd** y Pwyllgor am fanylion y llwybrau arfaethedig newydd a chostau tebygol y cynlluniau arfaethedig. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 27 Ionawr 2026 |

## 183. Strategaeth Gyfalaf 2026-27

<table>
<tr>
<td>Y Penderfyniad a Wnaed</td>
<td>
<u>PENDERFYNWYD:</u><br><br>
Ar ôl ystyried yr adroddiad a thrafodaeth fanwl gydag Aelodau'r Cabinet ac Uwch Swyddogion, fe wnaeth y Pwyllgor yr argymhellion a'r ceisiadau canlynol am wybodaeth ychwanegol:<br><br>
Argymhellion<br><br>
1. Trafododd y Pwyllgor gywirdeb ac amseroldeb data yn adroddiadau'r Rhaglen Gyfalaf Chwarterol i'r Cyngor ac argymhellodd y dylid ystyried defnyddio a chynnwys data amser real ac amseroldeb adrodd. Yn benodol, bod unrhyw brosiectau allweddol a gymeradwywyd, oediadau neu wariant ychwanegol ar brosiectau wedi'u cynnwys.<br><br>
2. Argymhellodd y Pwyllgor y dylid cynnwys infograffeg weledol, e.e. siartiau llif, diagramau, ac ati, sy'n dangos sut mae prosiectau'n cael eu cychwyn, y broses gymeradwyo ar gyfer derbyn prosiect ar gyfer y Rhaglen Gyfalaf, a sut mae elw ar fuddsoddiad neu effaith refeniw prosiect yn cael eu hasesu.<br><br>
3. Mynegodd y Pwyllgor bryder ynghylch oedi neu lithriad rhagweladwy wrth gyflawni Rhaglenni Cyfalaf ac argymhellodd y dylai pob prosiect gael cymeradwyaeth gadarn a bod rheoli prosiectau yn cael ei safoni ar draws pob prosiect a rhaglen i sicrhau bod y pwyntiau uwchgyfeirio cywir yn digwydd ar yr adegau cywir.<br><br>
4. Cyfeiriodd y Pwyllgor at ymateb y Cabinet i Argymhelliad 3 gan y Gweithgor Craffu ar y Gyllideb a dderbyniwyd ond ni nododd yr ymateb naratif y byddai unrhyw gamau pellach yn cael eu cymryd ac argymhellodd, fel rhan o'r twf trawsnewid arfaethedig, y dylid ystyried sut mae Rhaglenni Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol a sefydliadau eraill yn cael eu rheoli i archwilio arfer gorau ac i werthuso, llywio a gwella dull Pen-y-bont ar Ogwr.<br><br>
Ceisiadau am Wybodaeth Ychwanegol<br><br>
5. Gofynnodd y Pwyllgor faint o gyfanswm y Rhaglen Gyfalaf o £303m sy'n cael ei ddyrannu i gyflawni Ymrwymiad Net Sero 2030.
</td>
</tr>
</table>

| | |
|---|---|
| | 6. **Gofynnodd** y Pwyllgor am gael gweld y cofrestrau risg ac enghreifftiau darluniadol eraill o reoli risg Prosiectau Cyfalaf. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 27 Ionawr 2026 |

## 184. Enwebiad Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar y Cyd (JOSC) Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus (PSB) Cwm Taf Morganwg

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Cytunodd y Pwyllgor i ohirio'r adroddiad tan ei gyfarfod ar 26 Mawrth 2026. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 27 Ionawr 2026 |

## 185. Diweddariad Rhaglen Gwaith

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Cymeradwyodd y Pwyllgor ei Flaenraglen Waith yn Atodiad A yn amodol ar yr ychwanegiadau canlynol, nododd y Daflen Weithredu Monitro Argymhellion i olrhain ymatebion i Argymhellion y Pwyllgor a wnaed mewn cyfarfodydd blaenorol yn Atodiad B a nododd y Blaenraglenni Gwaith ar gyfer y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu eraill yn Atodiadau C, D ac E.<br><br>1. Parodrwydd y Cyngor i Ymateb i Stormydd a Thywydd Garw i gynnwys Strategaeth y Cyngor ynghylch Ymateb i Lifogydd ac Atal Llifogydd; a<br>2. Diweddariadau Chwarterol gan Fwrdd y Rhaglen Trawsnewid ar ôl ei sefydlu. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 27 Ionawr 2026 |

## 186. Materion Brys

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Dim |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 27 Ionawr 2026 |

I arsylwi dadl bellach a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y ddolen hon

Terfynwyd y cyfarfod yn 15:58